# APÊL I WEINIDOGION CYMRU O DAN ADRAN 39 DEDDF ADEILADU 1984 WEDI I AWDURDOD LLEOL WRTHOD LLACIO NEU GAEL OLLWNG GOFYNIAD Y RHEOLIADAU ADEILADU

## Nodiadau:

Mae Deddf Adeiladu 1984 yn cynnwys dwy weithdrefn – penderfyniadau ac apeliadau – sy'n helpu Gweinidogion Cymru i ddatrys anghydfodau sy'n codi rhwng unrhyw un sy'n gwneud gwaith adeiladu dan amodau y Rheoliadau Adeiladu a chorff rheoli adeiladu (naill ai awdurdod lleol neu arolygydd cymeradwy preifat) yng Nghymru. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi canllawiau ar y gweithdrefnau penderfynu ac apelio (sydd wedi eu mabwysiadau i'w defnyddio yng Nghymru) y dylech chi (h.y. perchennog y tir/adeilad, yr adeiladwr neu'r asiant) edrych arnynt cyn penderfynu a yw un o'r gweithdrefnau hyn yn addas i helpu i ddatrys eich anghydfod. Mae rhagor o wybodaeth ar y broses benderfyniadau ac apelio ar gael yn y Guide to Determination and Appeals under the Building Act 1984. Er bod y canllaw hwn yn nodi eu bod ar gyfer Lloegr, maent wedi eu mabwysiadu i'w defnyddio yng Nghymru:

Pe byddech yn credu bod gofyn(ion) penodol y Rheoliadau Adeiladu dan sylw yn rhy drwm neu'n amhriodol ar gyfer eich cynlluniau neu eich gwaith adeiladu chi, mae gennych hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol gan ofyn iddynt naill ai **lacio neu gael gwared ar** y gofyn(ion). Pe byddai'r awdurdod lleol yn gwrthod gwneud hynny, yna gallech apelio i Weinidogion Cymru o fewn mis i benderfyniad yr awdurdod drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon (mae ffurflen ar wahân ar gyfer penderfyniadau).

Mae'r ffurflen apelio hon wedi ei chynllunio i gael ei llenwi yn electronig (bydd pob blwch yn ehangu) a gellir ei hanfon mewn ebost neu ei hargraffu a'i hanfon drwy'r post at Lywodraeth Cymru, gyda'r dogfennau atodol y gofynnwyd amdanynt (gweler y cyfeiriadau ar waelod y ffurflen). Byddwn yn derbyn apeliadau hefyd ar ffurf llythyr drwy ebost neu'r post os yw'r wybodaeth a'r dogfennau atodol y gofynnir amdanynt yn y ffurflen hon yn cael eu darparu. Fodd bynnag, drwy gwblhau'r ffurflen hon yn llawn ac yn gywir (gan dalu sylw i'r troednodiadau), atodi'r dogfennau y gofynnir amdanynt yn y rhestr wirio isod – gan gynnwys sylwadau'r corff rheoli adeiladu ar eich apêl – bydd yn:

- ei gwneud yn haws ichi baratoi eich apêl gyda'r wybodaeth a'r dogfennau sydd eu hangen, gan arbed amser i chi a Llywodareth Cymru; a
- chyflymu'r broses apelio gyffredinol gan olygu eich bod yn derbyn penderfyniad cynt.

## ADRAN 1: Y BOBL SY'N CYMERYD RHAN A CHYFEIRIAD Y GWAITH ADEILADU

**1.1 Manylion yr apelydd (h.y. perchennog naill ai'r tir/adeilad neu'r adeiladwr).**

| | |
|---|---|
| Teitl: | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif ffôn: | |
| Ebost: | |

**1.2 Manylion asiant yr apelydd (os yn berthnasol).**

| | |
|---|---|
| Teitl: | |
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Rhif ffôn: | |
| Ebost: | |

**1.3 Manylion unrhyw bobl eraill sy'n rhan o'r gwaith adeiladu.**

Enw(au):

Swyddogaeth(au):

**1.4 Manylion yr awdurdod lleol.**

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

Ebost:

**1.5 Cyfeiriad yr adeilad neu'r safle y bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud neu wedi ei wneud (ble y mae'n wahanol i'r hyn a nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 1).**

## ADRAN 2: CYNLLUNIAU LLAWN, NEU HYSBYSIAD ADEILADU A LLACIO NEU CAIS AM OLLYNGIAD

**2.1 Nodwch y canlynol:**

i. A oedd y gwaith adeiladu yn destun cais gyda chynlluniau llawn neu hysbysiad adeiladu a gyflwynwyd i'r awdurdod lleol a dyddiad y cais/hysbysiad bryd hynny:

ii. Dyddiad penderfyniad yr awdurdod lleol ar eich cais gyda chynlluniau llawn (os yn berthnasol):

iii. Dyddiad eich cais am lacio neu ollwng i'r awdurdod lleol:

iv. Dyddiad y gwrthododd yr awdurdod lleol i lacio neu ollwng gofyniad(au) y Rheoliadau Adeiladu dan sylw:

## ADRAN 3: Y GWAITH ADEILADU A'R MATER SY'N DESTUN ANGHYDFOD

**3.1 Rhowch ddisgrifiad byr o'r adeilad ac/neu'r safle ble y bydd y gwaith adeiladu neu ble y bu (e.e. math, graddfa a defnydd yr adeilad, nifer y lloriau a'r ystafelloedd ar bob llawr, safle gwastad neu ar lethr, ac ati.**

**3.2 Rhowch ddisgrifiad byr o'r gwaith adeiladu (gan nodi a oes adeilad newydd yn cael ei godi, estyniad, newid neu newid defnydd ac ati) a'r anghydfod sydd rhyngddoch chi a'r awdurdod lleol, gan nodi pa ofyniad(au) o'r Rheoliadau Adeiladu sydd dan sylw.[1]**

**3.3 Rhowch ddatganiad byr yn egluro eich achos dros apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i wrthod i naill ai lacio neu ollwng gofyniad(au) penodol yn y Rheoliadau Adeiladu dan sylw.[2]**

## ADRAN 4: SYLWADAU YR AWDURDOD LLEOL

**4.1 Ydych chi wedi atodi copi o lythyr (yn cynnwys datganiad byr) gan yr awdurdod lleol ynghylch eich apêl, sy'n rhoi eu sylwadau ar yr adeilad/gwaith adeiladu a'r anghydfod dan sylw, ac yn egluro pam nad yw'r awdurdod yn barod i lacio neu ollwng gofyniad(au) perthnasol yn y Rheoliadau Adeiladu sydd dan sylw?[3]**

1 Os oes mwy nag un anghydfod, defnyddiwch rifau i wahaniaethu rhyngddynt.

2 Gwnewch hyn mor fyr â phosib. Byddai'n help mawr pe byddech yn gallu rhifo neu roi pwynt bwled ar gyfer pob pwynt yr ydych yn ei wneud. Gallech hefyd ateb y rhesymau a roddwyd gan yr awdurdod lleol dros wrthod eich cais i lacio neu ollwng gofyniad.

3 Mae Llywodraeth Cymru am gael sylwadau yr awdurdod lleol ar eich apêl. Mae hyn yn ogystal â chopi o hysbysiad gwrthod yr awdurdod sy'n gysylltiedig â'ch cais i lacio neu ollwng gofyniad. Er nad oes rhaid ichi yn gyfreithiol ddarparu'r sylwadau ychwanegol hyn, bydd yn cyflymu eich apêl os ydych yn cysylltu â'ch awdurdod ac yn cyflwyno copi o sylwadau eich awdurdod (a ddylai fod ar ffurf llythyr sydd wedi ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru) gyda'ch ffurflen apelio. Os ydych yn gwneud hyn, dylech sicrhau bod y ddwy ochr wedi gweld sylwadau ei gilydd, a'u bod yn ystyried eu bod yn sylwadau priodol, cyn anfon eich apêl at Weinidogion Cymru. Nodwch yma a yw sylwadau yr awdurdod wedi eu hatodi i'ch ffurflen neu a fyddai'n well gennych i Lywodraeth Cymru ofyn iddynt am eu sylwadau.

## ADRAN 5: RHESTR WIRIO Y DOGFENNAU ATODOL

Rhowch un copi o'r canlynol gyda'ch ffurflen apelio a nodwch os ydych wedi gwneud hynny:

| **Dogfennau sydd eu hangen** | **Oes** | **Nagoes** |
|---|---|---|
| Cynlluniau/lluniadau o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r anghydfod.<br>Rhowch restr o rifau a dyddiadau y cynllun/lluniadau isod: | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| |

| | | |
|---|---|---|
| Sylwadau yr awdurdod lleol am eich apêl<br>(Noder: mae hyn yn ddewisol – gweler troednodyn 3) | ☐ | ☐ |
| Unrhyw ohebiaeth **allweddol** blaenorol gyda'r awdurdod lleol sy'n egluro mwy am yr anghydfod, gan gynnwys copi o **hysbysiad gwrthod yr awdurdod sy'n gysylltiedig â'ch cais i lacio neu ollwng gofyniad, a hefyd hysbysiad gwrthod cynlluniau llawn os oes un wedi ei gyflwyno**. | ☐ | ☐ |
| Unrhyw ganiatâd adeilad rhestredig cysylltiedig neu ganiatâd cynllunio os yn berthnasol. | ☐ | ☐ |
| Unrhyw ddogfen berthnasol arall sy'n cefnogi eich achos; os ar gael, byddai rhai lluniau o'r mater sy'n destun yr anghydfod o gymorth.<br>Rhowch restr isod o unrhyw ddogfennau ychwanegol yr ydych wedi eu hatodi: | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| |

**NODER: Nodwch nad ydym yn codi tâl i apelio.**

| | |
|---|---|
| Llofnod yr ymgeisydd:<br>(pan fo'r ffurflen wedi ei chyflwyno fel copi caled) | |
| Enw (mewn LLYTHRENNAU BRAS): | |
| Sefydliad (os yn berthnasol): | |
| Dyddiad: | |

**ANFONWCH EICH FFURFLEN WEDI EI CHWBLHAU A'R ATODIADAU MEWN EBOST AT:**

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

**NEU EU POSTIO AT:**

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Rhif ffôn: 0300 060 4400

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49393
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg